# Perthyn

Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau

Awst / Medi 2023 Rhifyn 319



Llun – Amelia Davies

# Gair y Gweinidog

'Ar ryw brynhawngwaith teg o ha' hirfelyn tesog, cymerais hynt i ben un o fynyddoedd Cymru, a chyda mi sbienddrych i helpu 'ngolwg egwan i weled pell yn agos …'

Geiriau adnabyddus Elis Wynne, ac ym meddwl llawer un, llinell agoriadol orau'r iaith Gymraeg. Beth bynnag am hynny, i mi mae nhw'n eiriau sy'n cyfleu y cynhesrwydd yna oedd yn nodweddu hafau ein plentyndod ac yn achosi i rhywun edrych nôl gyda mesur o sentimentaliaeth. Mae'n siwr ein bod wedi profi tywydd gwlyb hefyd ond cofio'r haul mae rhywun ac nid y glaw. Dyddiau braf yn llawn gweithgareddau a hamdden a dyddiau ble'r oedd rhywun yn gallu angofio am batrwm arferol bywyd.

Fel teulu yn byw heb gar, uchafbwynt yr haf fyddai'r trip Ysgol Sul. Mae rhywun yn dal i deimlo'r cynnwrf, yn arbennig y noson gynt, pryd byddai mam yn torri brechdanau tomato ac yn llenwi potel blastig gyda sudd oren dyfriog a chynnes. Yn aml iawn, Rhyl fyddai cyrchfan y bererindod ac i bobl y De, Porthcawl neu'r Barri. Diwrnod o fwynhad llwyr, o brofi rhyfeddodau a gwario'r geiniog olaf! Gwerthfawrogi pethau syml bywyd a phwysigrwydd teulu a chymuned ac eglwys.

Mae pethau wedi newid! Prin os o gwbwl yw tripiau Ysgol Sul ac yn lle trefi glan môr Cymru, bellach mae yna heidio i lefydd fel yr Eidal, Ffrainc, Portiwgal, heb anghofio Malta! Ble bynnag y gyrchafan, fe fyddai'n wir dweud bod y cyfan yn adlewyrchiad o'r dyhead naturiol yna i encilio, i ddianc, petae ond am ychydig oriau, ychydig ddyddiau. Cyfle i ddatod ein hunain oddi wrth batrwm arferol bywyd, ac ymlacio.

Mae'r awdures Nancy Ferguson yn dweud peth fel hyn yn un o'i llyfrau defosiynol –

"Mae ein hamgylchedd ffisegol yn dylanwadu'n fawr ar ein bywyd ysbrydol. Ac fel y person hwnnw sy'n byw wrth ymyl y môr ac eto yn anwybyddu'r machlud a thrigolion dinas sydd wedi anghofio sut i ryfeddu at uchder yr adeiladau, gallwn fodloni'n ormodol ar agweddau ymarferol ac ysbrydol ein bywydau.... mae datod ein hunain oddi wrth drefn ein bywydau bob dydd yn agor ein calonnau a'n meddyliau.".

Mae bywyd yn gallu dwyshau ar adegau a phwysau ein byw dyddiol yn mynd yn ormod; yr alwad i encilio, i brofi unigedd o'r newydd, i fwynhau creadigaeth Duw ac i yfed y gwpan dda yna o goffi! Yn nyddiau coleg fe fyddwn yn dianc i fan uwchben Nantgwrtheyrn, ac wrth edrych allan ar y môr, pwyso a mesur ambell sefyllfa a phroblem, weithiau'n profi ateb, weithiau ddim. Mewn byd o brysurdeb a sŵn, mae i arafwch a thawelwch eu rhinweddau a'u bendithion, ond mae yna rhywbeth arall hefyd. Ein bod yn y tawelwch yna yn cael cyfle i wrando ar guriad ein calonnau, i gymryd stoc o'n bywydau, i deimlo presenoldeb y Duw byw, i glywed ei lais, ac i brofi o'i rym adnewyddol.
Er hoffter yr Iesu o fod yng nghanol pobl, fe gofiwch iddo yntau encilio oddi wrth y tyrfaoedd –

'Pan glywodd Iesu, aeth oddi yno mewn cwch i le unig o'r neilltu.'

Calon yr encilio yna oedd i geisio cymundeb â'i dad nefol ac o brofi'r gymdeithas, dychwelyd i ganol y tyrfaoedd, felly ninnau. Mae'r haf yn caniatau i ni ddatod oddi wrth drefn arferol bywyd a chael rhyw ychydig o orffwys ond ar yr un pryd yn gyfrwng adnewyddiad gan rhoi bod i'r dyhead i ddychwelyd i ganol realiti gyda'r ddealltwriaeth o argyhoeddiad ac ymgysegriad.

Mwynhewch y gwyliau!

Eifion.

# NEWYDDION

## Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Anne Edwards a Huw Evans, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwyneth a Robert Haydon-Jones a'r teulu ar farwolaeth chwaer Gwyneth, sef Ann Clwyd yng Nghaerdydd.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr sydd wedi derbyn ei gradd eleni. Dymunwn yn dda iddynt wrth barhau â'u hastudiaethau neu wrth iddynt ddechrau ar yrfa newydd.
Dymunwn yn dda i'r plant a'r ieuenctid fydd yn wynebu cyfnod newydd ar ddechrau Medi, yn yr ysgol, mewn coleg neu mewn gwaith.
Llongyfarchiadau i Ann Griffith sydd yn byw yn Washington erbyn hyn, ar dderbyn Cymrodoriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Aberystwyth am ei chyfraniad i ymgyrch Heddwch Nain Mam-gu sydd wedi sicrhau fod y gist gyda y cynnwys deiseb Heddwch Merched Cymru yn 1923 yn cyrraedd y Llyfrgell Genedlaethol o Amgueddfa'r Smithsonian.

# RHESTR BLODAU



## Awst

6 Awst – Seion
13 Awst – Bethel
20 Awst – Morfa
27 Awst – Seion

## Medi

3 Medi – Dafydd Morgan Evans
10 Medi – Ellen a Huw Evans
17 Medi – Mary James
24 Medi -

# Newyddion Ebeneser



## Cofion

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at ein aelodau a’n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn yn arbennig am Sylvia a Ron Lewis a’r teulu.

## Gwasanaethau

Erbyn hyn rydym yn cynnal gwasanaethau yn Ebeneser ar y Sul cyntaf a’r trydydd Sul. Mae’n braf gweld cynifer yn bresennol, yn cynnwys cyfeillion sydd wedi ymuno yn ystod y flwyddyn hon.

Cynhelir gwasanaeth Cymun yn Ebenser ar Awst 20 o dan ofal ein Gweinidog Y Parchedig Eifion Roberts.

### Mis Medi

3 Medi – Eifion Roberts (Cymundeb)
17 Medi – Eifion Roberts

## YR YSGOL SUL

Cynhaliwyd Brecwast a Gwasanaeth diwedd tymor Yr Ysgol Sul ar ddydd Sul, Gorffennaf 16. Thema'r Gwasanaeth oedd Trysor. Roedd yn seiliedig ar eiriau "Cân y Beibl" - y geiriau o waith Arwel Rocet a'r alaw gan Bethan Bryn. Roedd wedi ei chynnwys yn Rhaglen y Gymanfa eleni. Roedd y geiriau yn cyfeirio at y daith drwy'r Beibl a'i bod fel dilyn map mewn helfa drysor gan ddarganfod y trysor yn Iesu Grist. Er yr holl eiriau yn y penodau a'r adnodau, y trysor yn y gist oedd y tri gair DUW CARIAD DUW,

Trwy gyfrwng ffilm yn dangos gweithgareddau'r flwyddyn, darlleniadau, emynau, cyflwyniad cerddorol a chyflwyniad offerynnol o'r alaw Cariad Iesu Crist aethpwyd ar daith hyd at ddarganfod y trysor yn y gist. Rhoddwyd symbolau yn gysylltiedig â'r storiau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn y gist trysor.

Ar ôl darganfod y trysor mae'n bwysig ei rannu ag eraill. Penderfynwyd fod y casgliad a'r cyfraniadau ariannol yn ystod y brecwast a rhoddion o fwyd yn mynd at Banc Bwyd Aberystwyth. Cyfanswm yr arian a dderbyniwyd oedd £187. DIOLCH I BAWB am eu cefnogaeth ardderchog.

Diolch i aelodau'r Ysgol Sul – yn athrawon, rhieni, plant a ieuenctid am eu cyfraniadau i'r gwasanaeth ac i'r brecwast, hefyd am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn. Diolch yn

arbennig i'r ieuenctid am drefnu'r brecwast, am eu cymorth gyda'r cyfeilio ac am eu cyfraniadau i'r gwasanaeth.
Byddwn yn ail – ddechrau'r Ysgol Sul ar ddydd Sul, Medi 10 -y Sul ar ôl dechrau tymor yr ysgol.  Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o gyd-weithio hapus a hwyl yn Yr Ysgol Sul. Mae'r drws bob amser ar agor a byddwn yn croesawu aelodau newydd yn gynnes iawn i ymuno â ni.

## AGOR Y LLYFR

Bu'r criw Agor y Llyfr yn ymweld â'r Ysgol Gymraeg unwaith y mis yn ystod y flwyddyn i gyflwyno storiau o'r Beibl a chael cymorth y plant gyda'r cyflwyniadau. Mae wedi bod yn fraint cael y Parch Gwilym Tudur, Gweinidog Seion yn rhan o'r tîm a chawsom gyfle i ddiolch iddo am ei gyfraniad, ac i ddymuno'n dda iddo ef a'i briod Alex wrth iddynt ddechrau pennod newydd yng Nghaergrawnt.
Mae adnoddau newydd wedi eu paratoi gan Cymdeithas y Beibl ar gyfer mis Medi a byddwn yn cynnal hyfforddiant o dan arweiniad Sarah Morris ar nos Fawrth Medi 12 am 7 o'r gloch yn Festri'r Morfa ar gyfer y rhai sydd yn aelodau presennol o'r timau Agor y Llyfr yn yr ardal a'r rhai sydd â diddordeb i ymuno.   Croeso cynnes - Dewch i gysylltiad.

Eleri

# DOD I ADNABOD AELODAU NEWYDD



## LONA JONES

**Dwedwch ychydig bach o'ch hanes.**

Treuliais fy mhlentyndod ers yn dair oed yn Gorsgoch, pentref bach gwledig yng ngwaelod Sir Aberteifi.

'Roeddem yn ffodus iawn i gael prifathrawes ddawnus, gweithgar a chydwybodol ym mherson Sadie Jenkins a fyddai'n ein dysgu yn yr Ysgol, yr Ysgol Sul, a'r Aelwyd. Byddai pob tymor yn ei dro yn dod a'i weithgareddau – yn gynnar yn y flwyddyn paratoi at Gymanfa Bwnc y Bedyddwyr ac Eisteddfod

yr Urdd, Gymanfa Ganu a chyngerdd blynyddol. Ar ôl yr Haf, prysurdeb gweithgareddau'r Cynhaeaf ac yna paratoi at ddathliadau'r Nadolig gyda'r gymuned gyfan. Hyn i gyd yn rhoi profiadau amhrisiadwy a chynhwysfawr ar gyfer ein dyfodol.

Yna symud i Ysgol Uwchradd Llambed. Gadael yr ysgol a symud i Aberystwyth i dderbyn swydd fel 'receptionist' yng Ngwesty'r Marine. Fel yr hynaf o chwech o blant fe fu tipyn o hiraeth ar y cychwyn ond buan bu imi ymgartrefu yn enwedig ar ôl ymuno â Aelwyd yr Urdd – 'roedd dim edrych 'nol wedyn! Ar ôl cyfnod yn y Marine fe fum yn gweithio fel ysgrifenyddes i Gwennant Davies yn Swyddfa'r Urdd cyn symud i Undeb y Myfyrwyr, Coleg y Brifysgol, ac yno y bum am 34 o flynyddoedd yn gweithio gyda'r myfyrwyr tan penderfynu cymeryd ymddeoliad cynnar.

**Pam dod yn aelod?**

O ddyddiau fy mhlentyndod mae gweithgareddau'r capel wedi bod yn rhan bwysig ac anatod o'm bywyd ac ers byw yn Aberystwyth fe fum yn mynychu Capel Saesneg Elim gyda ffrind, Capel Salem gyda Iona, Mary a Moses Jones a hefyd Capel Seion. Yna, ar ôl priodi Glyn, Capel Blaenplwyf ac yno y bum tan i'r Capel yn anffodus gau ei ddrysau yn ystod 2022. Yn naturiol ddigon 'roedd y penderfyniad i ofyn i Eifion a gawn ni fy nerbyn yn aelod yng Nghapel y Morfa yn un hawdd iawn gan fy mod wedi derbyn gymaint o groeso gyda llu o ffrindiau a chefnogaeth gan yr aelodau ers i mi golli Glyn. Mae'r gynhaliaeth wedi bod yn amhrisiadwy a'm diolch yn ddiffuant i bawb ac yn arbennig i Eifion.

**Beth yw dyfodol y Gristnogaeth yn ein gwlad?/Beth hoffech weld yn digwydd ym mywyd yr Eglwys?**

Yn bersonol fe hoffwn weld mwy o gyd-addoli, cyd-weithio a rhannu adnoddau rhwng yr holl enwadau a'r eglwysi.  Credaf mai -

'mewn undod mae nerth'.

## ROBIN HUW BOWEN

**Dwedwch ychydig bach o'ch hanes.**

'Sgowsar' o Gymro ydw i, o dras Môn a Meiron, ac o Sir Fflint a Dyffryn Conwy ymhellach nôl. Trigai sawl cenhedlaeth o'r teulu yn Lerpwl ei hun. Fan 'na treuliais ddeunaw mlynedd cyntaf fy mywyd. Ers dyddiau fy hen daid, bu'r teulu yn aelodau yng Nghapel M.C. Anfield Rd, nepell o ddwy 'deml' enwocaf y ddinas, Anfield, a Goodison Park! Mi ddes i Goleg Aberystwyth yn 1975 i lenwi bwlch yn fy addysg, drwy wneud gradd yn y Gymraeg. Rhwng 1980 a 1986, bûm ar staff ein Llyfrgell Genedlaethol, nes i mi ddianc efo 'nheires i deithio'r byd, ac "mae'r gweddill yn Hanes"!

**Pam dod yn aelod?**

Mewn geiriau unigol – ysbrydolrwydd, cymuned, cyfeillach, cymdeithas, cefnogaeth, y Gymraeg, Cymreictod, hanes, etifeddiaeth, i enwi rhai. A diolchgarwch, wrth gwrs. Erioed, dwi wedi derbyn sut gymaint i ddiolch i Dduw amdano. Ond wrth ddod yn fwy cyson i'r Morfa efo Mam (Mona), dwi wedi dynesu at achos Ffydd eto, a theimlwn y dyliwn 'wneud safiad' gyda chi. Fel mae'r gân yn ei ddweud, "Rhown ein golau gwan i'n gilydd". Ac os na allaf wneud dim mwy nag ychwanegu fy mhresenoldeb at yr achos, o leiaf mae hynny yn un fuddugoliaeth fach yn erbyn y Drwg, mewn byd lle mae trachwant, diffyg trugaredd a ffieidd-dra ar i fyny, ar draul tegwch, gofal a'r cyfiawn. Dwi'n cytuno'n llwyr efo'r dywediad,

“The only thing necessary for the triumph of evil is for good men to do nothing”.

**Beth yw dyfodol y Gristnogaeth yn ein gwlad?/Beth hoffech weld yn digwydd ym mywyd yr Eglwys?**

Mae crefydd wedi newid lot ers fy mhlentyndod, o fod yn fwy negyddol, i fod yn fwy positif a chynhwysol. Mae gorchmynion ac esiampl yr Iesu yn ein dysgu i geisio cynnwys pawb, ond hefyd i sefyll yn erbyn anghyfiawnder a drwg. Mae’r Eglwys (a phob crefydd mewn gwirionedd) yn gorfod gofalu nad ydy sefyll yn erbyn anfadwaith yn y byd yn troi yn hunangyfiawnder a beirniadol drwy ryw ffwndamentaliaeth ynfyd. Mae’n bwysig i Gristnogion ‘wybod y geiriau’, ond yn bwysicach, iddyn nhw ‘adnabod y Gair’.

cymorth cristnogol

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn Seion, Stryd y Popty, dydd Llun, 4 Medi rhwng 12.00 a 1.30pm.

Croeso cynnes i bawb



# LLYN AC EIFIONYDD

# 5 – 12 AWST

# DIGWYDDIADAU CREFYDDOL

# GWELER Y RHESTR YN CENNAD RHIFYN 126

# 26 GORFFENNAF

# DYMA UN NEU DDAU OHONYNT

Cofiwch am yr Oedfa bore Sul, 6 Awst am 10 a'r Gymanfa Ganu am 8

**8 Awst am 10.30 – Pabell y Cymdeithasau 2**

Darlith Flynyddol Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru, gan y Parch. Ddr Rosa Hunt, Cyd-brifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd
Ei thestun fydd: '"Pobl ddieithr eu hiaith ac anodd eu lleferydd"? – cyfieithu, cymuned a chrefydd'. Darlith am y berthynas gymhleth rhwng iaith,

cymuned a ffydd. Dadleuir dros ddwy dybiaeth sylfaenol: yn gyntaf, nad ydy'r ffydd Gristnogol yn bodoli heb iddi gael ei chyfieithu, ac yn ail, nad ydy hi'n bosibl cyhoeddi'r neges Gristnogol yn ffyddlon heb ei chyfieithu i idiom naturiol y diwylliant lleol.

**9 Awst am 10,30 – Pabell y Cymdeithasau 2**

Pedr Fardd, pwy awdwr fu, Mwy anwyl am emynu?' Dawi Griffiths yn trafod bywyd a gwaith yr emynydd Pedr Fardd (1775–1845). Darlith flynyddol Cymdeithas Emynau Cymru y

**9 Awst am 7 – Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr**

Darlith goffa yn Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr, er cof am y Parch. J. Lloyd Jones dan y teitl 'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?' Y darlithydd fydd y Parch. Siôn Brynach, Prif Weithredwr Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru

**11 Awst am 10 – Pabell y Cymdeithasau 1**

Addoldai mwyaf nodedig Cymru?' Darlith Addoldai Cymru / Capel gan Dr Tanya Jenkins.

**11 Awst am 2 – Stondin Coleg Cymraeg Cenedlaethol –**

Pryderi Llwyd Jones ar ran Cristnogaeth21

yn hwyluso sgwrs rhwng Aled Jones Williams a Cynog Dafis dan y teitl 'duw, Pantycelyn a Dyfodol Crefydd'. Trafodir dwy gyfrol: Cerddaf o'r Hen Fapiau gan Aled a Pantycelyn a'n Picil Ni Heddiw gan Cynog.

**12 Awst am 11 – Pabell y Cymdeithasau 1**

O William Salesbury i William Morgan: y Dadeni yn Nyffryn Conwy?' Sesiwn yng nghwmni Gruffudd Antur, Peredur Lynch ac Eryl Owain. Cynhelir dan nawdd Tŷ Mawr Wybrnant, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.



# Taith Capel Newydd Nanhoron

## Ar gyfer ymwelwyr ag Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

Y mae capel bach gwyngalchog
Ym mhellafoedd hen wlad Llŷn
Cynan

- Er ei enw, mae Capel Newydd yn hen adeilad sy'n dyddio'n ôl i 1769.
- Wedi ei restru yn adeilad Gradd 1, dyma'r enghraifft hynaf o gapel Anghydffurfiol sy'n dal i fodoli yng ngogledd Cymru.
- Ers 1958 mae yng ngofal ymddiriedolaeth elusennol.



**Dydd Mawrth, Awst 8, 2023,**
**gan gychwyn o faes parcio'r Eisteddfod.**



Diolch i wasanaeth cludiant cymunedol O Ddrws i Ddrws, bydd bws mini sydd yn dal 12 yn gwneud tair taith i Gapel Newydd yn ystod y dydd.

**£5 y pen**.

Yno bydd John Dilwyn Williams, cadeirydd yr ymddiriedolaeth, yn rhoi hanes y capel.

**<u>RHAID ARCHEBU LLE YMLAEN LLAW</u> Ffoniwch O Ddrws i Ddrws ar 01758 721777.**

**Byddwn yn ymgynnull y tu allan i fynedfa Maes yr Eisteddfod.**

**Taith A – Cychwyn am 10.00 ac yn ôl erbyn 11.45**

**Taith B – Cychwyn am 11.00 ac yn ôl erbyn 12.45**

**Taith C – Cychwyn am 12.00 ac yn ôl erbyn 13.45**




# GWEDDIWN

Arglwydd, diolchwn am yr adnewyddiad
a rydd gwyliau i'n bywyd:
am gyffro'r disgwyl a'r cynllunio;
am ryddid oddi wrth ddyletswyddau bob dydd;
am brofiadau a chyfleon newydd.
Rhoddaist fyd rhyfeddol i ni:
ble bynnag yr awn fe'n hamgylchynir
gan bethau sy'n bleser i'r llygaid
ac yn faeth i'r meddwl.
Helpa ni i ddefnyddio'n gwyliau
i ganfod dy ogoniant di yn dy greadigaeth;
i ddefnyddio'n rhyddid i ddeall yn gliriach
y cyflawnder bywyd yr wyt ti'n ei gynnig i ni'n barhaus.
Derbyn ein dioch am gyfoeth amrywiol bywyd,
dy rodd di i ni;
a phan ddaw ein gwyliau i ben,
arwain ni'n ôl i'n cartrefi yn ddiogel,
wedi'n hadnewyddu a'n hysbrydoli
o gael gorffwys a chael mwynhau
rhyfeddodau dy fyd di.

AMEN

Roy Chapman, Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts




Map y trysor – Gweler tudalen 6

**Astudiaeth Ffydd a Phaned – prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom**




Fe fyddai’n wir dweud bod unrhyw weithred o addoliad yn weithred ddylai gwmpasu mwy na un synnwyr. Fe roddodd y traddodiad anghydffurfiol bwyslais mawr ar y gwrando a hynny efallai ar draul y gweld, ac yn hanesyddol bu bodolaeth adeiladau di-addurn yn gyfrwng i danlinellu hynny. Yn wahanol i’r traddodiad Anglicanaidd gyda’u fffenestri lliw a’u defnydd o liw tymhorol, prin yw’r gweledol yn ein capeli, heblaw ambell gapel fel Capel y Morfa. I nifer ohonoch mae hanes y baneri sy’n addurno’r adeilad yn gyfarwydd ond nid i bawb, ac felly

yn ystod y misoedd nesaf bydd pwt am bob un yn ymddangos yn Perthyn.
Rhodd gan deulu y diweddar Tudor Henson, Nia a Gwydion, yw'r un gyda'r geiriau 'Cenwch i'r Arglwydd gân newydd' arni ac fe'i crëwyd gan Hazel Carpenter o bentref Carmel, Arfon. Bu Tudor Henson yn organydd am flynyddoedd ac adlewyrchir hynny, a'i hoffter o gerddoriaeth yn gyffredinol, yng ngeiriau'r Salmydd, y linell gerddorol a hefyd y dôn Eifionydd oedd yn golygu gymaint iddo. Nid yn unig hynny ond hefyd ei genedlaetholdeb, Cymru a'i hoffter o fyd natur. Mae'r Cennin Pedr, y môr, y mynyddoedd, yn weledol ond hefyd yn cael eu cynyrychioli gan liwiau a ffurf.
Gwaith cywrain, yn goffa da o'i fywyd a'i gyfraniad ac yn gymorth i ni yn ein haddoliad heddiw.

Eifion.

# SULIAU MIS AWST

## Blaenor y mis – Huw Owen

6 Awst – SEION – Emyr Gwyn Evans
13 Awst – BETHEL – Judith Morris
20 Awst – MORFA – Eifion Roberts
27 Awst – SEION – Gareth Morgan Jones

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch.

# SULIAU MIS MEDI

## Blaenor y Mis – Menai Lloyd Williams

3 Medi – Eifion Roberts (Cymundeb)
10 Medi – Huw Roderick
17 Medi – Eifion Roberts
24 Medi – Peter Thomas

Golygyddion Awst /Medi– Eifion ac Alwen Roberts

Golygyddion Hydref - Gwenan a Nest

gwenancreunant@googlemail.com /
nestgwilym@ntlworld.com

**Deunydd i law erbyn Medi'r 15fed**

Cymdeithas Gweddi a Choffi –
Bore Mawrth 10.30 yn y festri a 11 o'r gloch pan ar Zoom